Datganiad ar Gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl

Cyflwyniad

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn tramgwyddo hawliau dynol sylfaenol. Ceir sawl ffurf arni, yn cynnwys caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol a masnachu pobl; yr hyn sydd gan bob un o'r rhain yn gyffredin yw person yn amddifadu person arall o'i ryddid er mwyn manteisio arno i ymelwa'n bersonol neu'n fasnachol.

Rydym yn ymrwymo i wella ein harferion i fynd i'r afael â chaethwasiaeth a masnachu pobl.

Gwneir y datganiad hwn yn unol ag adran 54(1) y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n ffurfio ein datganiad ar gaethwasiaeth a masnachu pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n gorffen 31/07/2017

Strwythur sefydliadol

Yn unol â Siarter Atodol Frenhinol Prifysgol Aberystwyth, y Cyngor yw "corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol" ac mae'n "gyfrifol am benderfynu ar gyfeiriad strategol y Brifysgol ac am y modd y gweithredir materion ariannol a gweinyddol, a materion eraill y Brifysgol, yn unol â'i hamcanion".

Yr Is-Ganghellor yw prif swyddog academaidd, gweinyddol a chyfrifyddol y Brifysgol. Mae'n gyfrifol am reolaeth weithredol y Brifysgol o ddydd i ddydd, gan ddirprwyo swyddogaethau gweithrediadol i'r swyddogion priodol, ond mae'n cadw'r oruchwyliaeth strategol ar y cwbl.

Ein cadwyni cyflenwi

Mae'r Brifysgol yn bodloni ei hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau a gweithiau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail bywyd cyfan ar gyfer sicrhau manteision i'r sefydliad, yn ogystal â'r gymdeithas a'r economi, ac wrth leihau'r niwed i'r amgylchedd.

Mae cadwyni cyflenwi'r Brifysgol yn syrthio'n bennaf i bum 'uwch-gategori', sef:

- Defnyddiau Traul a Chyfarpar Labordai
- Adnoddau Llyfrgell
- Gwasanaethau Proffesiynol
- Offer a Gwasanaethau TGCh
- Nwyddau, Gwasanaethau a Gweithiau Ystadau

Y prif gategorïau risg yw nwyddau'r swyddfa, defnyddiau traul labordai, offer TGCh a rhai o'r gwasanaethau ystadau, megis gwasanaethau glanhau sy'n cael eu cyflenwi yn allanol o bryd i'w gilydd.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn aelod o Gonsortiwm Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru. Mae'r Consortiwm yn cydweithio'n effeithiol â Chonsortia Pwrcasu Prifysgolion y DU a grwpiau cenedlaethol, a cheir perthynas lwyddiannus a blaengar rhyngddynt.

Mae'r rhaglen gyd-gontractiol yn darparu portffolio cydweithredol cynhwysfawr ac aeddfed, sy'n cynnwys rhai o'r categorïau risg uchel a enwir uchod.

Mae nifer gynyddol o'n cyflenwyr yn y categorïau risg uwch hyn wedi ymrwymo i God

Sylfaenol y Fenter Masnachu Moesegol ac mae Consortia Pwrpasu Prifysgolion y DU yn gweithio i sicrhau bod y cyflenwyr eraill yn y categorïau hyn yn ymuno â nhw. Seiliwyd Cod Sylfaenol y Fenter Masnachu Moesegol ar gonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol ac y mae'n god arferion llafur sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol, ac sy'n mynnu:

1. Bod cyflogaeth yn cael ei dewis o wirfodd;
2. Bod rhyddid i ymgysylltu a'r hawl i fargeinio ar y cyd yn cael eu parchu;
3. Bod amodau gwaith yn ddiogel ac yn lanwaith;
4. Nad oes llafur plant yn cael ei ddefnyddio;
5. Bod cyflogau byw yn cael eu talu;
6. Nad yw'r oriau gwaith yn ormodol;
7. Na cheir gwahaniaethu;
8. Bod cyflogaeth reolaidd yn cael ei darparu; ac
9. Nad oes triniaeth lem nac annynol yn cael ei chaniatáu.

Offer TGCh

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cyfranogi o nifer o gytundebau pwrcasu cydweithredol offer TGCh.

Trwy'r cytundebau pwrcasu cydweithredol hyn, mae'r Brifysgol yn cefnogi egwyddorion *Electronics Watch*, sefydliad monitro annibynnol sy'n gweithio i sicrhau parch i hawliau llafur yn y diwydiant electroneg yn fyd-eang trwy bwrcasu gyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn Ewrop. Rydym yn gweithio gyda'r cyflenwyr sydd dan gontract i weithredu ac ymrwymo i ddulliau monitro newydd lle mae codau ymddygiad corfforaethol a pholisïau ac arferion archwilio cymdeithasol yn methu o ran tryloywder ac effeithiolrwydd.

Ein polisïau ar gaethwasiaeth a masnachu pobl

Rydym yn ymrwymo i sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi nac yn unrhyw elfen o'n busnes.

Gyda golwg ar ein dyletswydd i adrodd ar fesurau i sicrhau bod pob elfen o'n busnes a'n cadwyni cyflenwi yn rhydd o gaethwasiaeth, byddwn yn adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau yn y gweithle i asesu eu heffeithiolrwydd wrth adnabod a mynd i'r afael â phroblemau caethwasiaeth fodern. Bydd polisi datblygol y llywodraeth ar gadwyni cyflenwi moesegol hefyd yn cael ei ystyried gan y Brifysgol.

Bydd ein polisïau a'n gweithdrefnau yn y gweithle yn dangos ein hymrwymiad i weithredu'n foesegol ac yn onest ym mhob cysylltiad busnes ac i weithredu a gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol i sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi.

Trefniadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer caethwasiaeth a masnachu pobl

Fel rhan o'n menter i adnabod a lleihau risg, rydym yn sefydlu systemau ar gyfer:

- Adnabod ac asesu ardaloedd risg posibl yn ein cadwyni cyflenwi.
- Lleihau'r risg o gaethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi.
- Monitro'r ardaloedd risg posibl yn ein cadwyni cyflenwi.
- Amddiffyn pobl sy'n chwythu'r chwiban.

Hyfforddiant

Er mwyn sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o beryglon caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi a'n sefydliad, rydym yn codi ymwybyddiaeth o achosion o gaethwasiaeth fodern a thramgwyddo hawliau dynol ymhlith ein staff a'u hyfforddi'n briodol. Mae staff caffael yn gweithio tuag at gwblhau'r hyfforddiant ar-lein 'Caffael a Chyflenwi Moesegol' y

Sefydliad Pwrcasu a Chyflenwi Siartredig, neu gyfatebol.

Camau pellach

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i ddeall ei chadwyni cyflenwi yn well a gweithio tuag at fwy o dryloywder a chyfrifoldeb i bobl sy'n gweithio ynddynt.

O ran y cytundebau a ddyfarnwyd ac yr ydym yn cyfranogi ohonynt, rydym yn adnabod y cadwyni cyflenwi hynny sy'n cynrychioli risg ganolig-uchel o gaethwasiaeth fodern, masnachu pobl, llafur dan orfodaeth a rhwymdoll, ac achosion o dorri hawliau llafur. Trwy weithio gyda'n cyflenwyr, grwpiau pwrcasu cydweithredol a sefydliadau perthnasol eraill, rydym yn monitro yn fwy agos y cadwyni cyflenwi hynny a nodwyd yn risg bosibl ac yn cymryd camau priodol os oes angen.

Mae'r Brifysgol yn sicrhau bod pob ymarfer caffael newydd a gynhelir yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflenwr posibl gadarnhau ei fod yn gweithredu yn unol â gofynion y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern (2015).

Syr Emyr Jones Parry, Cadeirydd y Cyngor
Prifysgol Aberystwyth
Dyddiad: 27 Tachwedd 2017